# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



**Ac mi glywaf grafangau Cymru'n dirdynnu fy mron.**
**Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.**

**Hon – T H Parry Williams**

***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**Rhifyn 7**
**PAPUR MAWRTH 2025**

# Gair gan ein Gweinidog

## CAWL

***GYDA*** Dydd Gŵyl ein Nawddsant Dewi yn agosáu, mae sawl cinio cawl wedi'i drefnu ar gyfer dathlu'r Ŵyl. Ond pam bwyta cawl adeg Gŵyl Dewi?



Wel mae'r ateb yn syml, oherwydd taw pryd traddodiadol Cymreig yw cawl!  A phryd bwyd sy'n addas iawn ar gyfer y tywydd oer 'ma.

Erbyn heddiw mae gan y gair 'cawl' ystyr ehangach, ond yn hanesyddol roedd yn dynodi pryd arbennig yn cynnwys cynhwysion sylfaenol traddodiadol.

Cofnodwyd y gair "cawl" yn gyntaf yn y 13g yn yr ystyr o fresych neu lysiau coginio.

Ers tua'r flwyddyn 1400 mae'r gair 'cawl' wedi ei ddefnyddio yn ei ystyr o bryd bwyd.

Cafodd cawl traddodiadol Cymreig ei weini fel pryd canol dydd yn ardaloedd amaethyddol Cyrmru, ac fel cinio nos y glöwyr yng nghymoedd diwydiannol y de.

Ond mae'r gair 'cawl' yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun arall hefyd!  Sawl gwaith ydych chi a fi wedi dweud ein bod ni neu rywun arall wedi '*gwneud cawl'* ohoni!

Dyna chi ddisgrifiad rhyfedd yntife!

Tra bo cawl yn bryd blasus a maethlon, eto, caiff yr enw ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywun yn gwneud llanast o rywbeth! Gwneud smonach neu gawl potsh o rywbeth!

Wel dyw'r newyddion ddim yn brin o enghreifftiau o bethau a wnaed cawl ohonynt yn ddiweddar, gan unigolion, gan wleidyddion, gan arweinyddion, gan systemau a chan dimoedd chwaraeon.

Mae'n ddiwrnod newydd, gobeithio taw pryd o fwyd traddodiadol a maethlon fydd cawl i chi heddiw ac nid smonach!



Ond cofiwch, os byddwch wedi gwneud cawl ohoni, mae yna bob amser gyfle i wneud yn iawn am hynny. Treial eto. Ail gyfle.

***WEDI'R*** cwbl, onid yw cawl eildwym yn hynod o flasus!

**Gweddïwn**

**Yng nghlyw ac yn ysbryd neges Dewi Sant,**
**cynorthwya ni, ein Tad,**
**i ddathlu ein gŵyl genedlaethol yn llawen ein hysbryd,**
**yn gadarn ein ffydd ac yn barod i gyflawni'r pethau bychain**
**sy'n bwysig yn dy olwg di,**
**ac er mwyn dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.**



**Amen**

**BORE COFFI LLYFRAU LLAFAR CYMRU**
**Dydd Mercher 9 Ebrill 2025**
**10.30-12.00**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin**
**Tocynnau: £2**

# DARLLENIADUR

| Mis Mawrth | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 1 |
| Wythnos 2 | Luc 4: 1-13 |
| Wythnos 3 | Luc 13: 31-35 |
| Wythnos 4 | Salm 27 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:**

**'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds**
**30-91-68**
**Acc no: 00229403**

**neu osod cyfraniad yr yr amlen sydd gyda Phapur yr Ofalaeth (rhifyn papur) y mis hwn. Gellir dychwelyd yr amlen i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.**


## MORGRUG!

A hithau'n fore oer ond heulog, daeth cynulleidfa luosog ynghyd i Elim ar 2 Chwefror i dystio i fedydd Cerith James, mab bach Laura ac Ian Wellings. Cyhoeddwyd yr emyn cyntaf *'Diolch iti Iôr'* gan Gwenna gyda chymorth ei thad Jonathan. Cafodd pawb hwyl yn curo dwylo yn ystod y gytgan '*Halelwia, Molwn Di'.*

Natalie gymerodd at y darlleniad o'r Testament Newydd yn ystod y bedydd, gan ein hatgoffa bod Iesu Grist yn croesawu plant bach, a chafwyd cymorth Gwenno eto i gyflwyno'r dystysgrif bedydd i Cerith bach. Cyhoeddwyd emyn y bedydd gan Jonathan ac ar ôl y cyhoeddiadau a gyflwynwyd gan Brian Walters, roedd Elina, Isaac, Nansi a Trystan y barod iawn i helpu gyda'r casgliad ac i ymuno â Beti-Wyn mewn gair o weddi i'w fendithio.

Cafwyd sypreis wrth i blant yr Ysgol Sul ganu dwy gân hyfryd i ni. Mae'n dda eu gweld yn magu hyder wrh gymryd rhan yn yr oedfaon. Da iawn blant! A diolch i Miriam.

Daeth Beti-Wyn i siarad â'r plant, am y tro cyntaf gyda'r sgriniau newydd yn Elim! Ac fe welwyd lluniau rhyw greaduriaid bach rhyfedd ar y sgriniau – creaduriaid bach iawn sy'n ymddangos yn y gaeaf, sef morgrug! Soniodd Beti-Wyn fod gan y morgrug lawer i'w ddysgu i ni fel Cristnogion. Maent yn gryf, yn paratoi, yn rhannu eu bwyd ac yn ddisgybledig. Ond yn fwy na dim, mae'r mrogrug bob amser yn cydweithio. Mae lle i bawb yn nhîm yr eglwys, o'r hynaf i'r lleiaf posib fel Cerith bach. Mae Duw yn gweld posibiliadau mawr yn y lleiaf ohonom.



Wedi canu'r emyn nesaf, ymunodd bawb o amgylch Bwrdd yr Arglwydd ar gyfer y Cymun. Aethpwyd o Elim wedi oedfa lawen iawn gyda geiriau'r emyn olaf yn atseinio yn ein clustiau *'Iesu sy'n rhoi ei gariad i mi, cariad i mi pob dydd'.*

***DO,*** bu'n fore ardderchog yn Elim. Da oedd bod yno.

**BEDYDD CERITH JAMES, MAB BACH LAURA AC IAN WELLINGS YN YSTOD YR OEDFA DEULU YN ELIM**




Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

# CYNGERDD

yng ngofal

## AELWYD HAFODWENOG TRELECH

Nos Sul, 6 Ebrill 2025
am 6 yr hwyr
yng


## NGHAPEL HEOL AWST
CAERFYRDDIN, SA31 3AP

Cadeirydd: Annell Dyfri

Tocynnau: £10
ar gael gan Olga Williams,
01267 231739/07949 675548
a Siop Y Pentan neu wrth y drws

Elw: Aelwydydd yr Urdd lleol

**COFIO SYR T H PARRY-WILLIAMS**
**1887-1975**



***GANED*** T H Parry-Williams ar 21 Medi 1887 yn Rhyd-ddu, pentref bach yn Eryri rhwng Beddgelert a Chaernarfon. Roedd cefndir llenyddol ar ddwy ochr y teulu. Cefnder i T H Parry-Williams ar ochr ei dad oedd R Williams Parry. Cefnder arall iddo oedd Syr Thomas Parry, ysgolhaig a chyn bennaeth Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Ei dad oedd ysgolfeistr pentref Rhyd-ddu, ac roedd yntau ymhlith y cyntaf yng Nghymru i gyflwyno llenyddiaeth Gymraeg i faes llafur ysgolion elfennol. Bu dylanwad ei fagwraeth a'i fro yn fawr arno. Mae'r plac ar wal Tŷ'r Ysgol yn dwyn y geiriau: *'Mae darnau ohonof ar wasgar ar hyd y fro'* ac mae arddangosfa fechan y tu mewn i'r adeilad.

Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle darllenodd y Gymraeg a Lladin, ac yna aeth i Goleg Iesu, Rhydychen a Phrifysgolion Freiburg a Pharis i astudio Ieithyddiaeth Gymharol.

Ym 1912, tra oedd yn fyfyriwr, enillodd y Gadair a'r Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, camp a gyflawnodd drachefn dair blynedd yn ddiweddarach ym Mangor.

Cymerodd safiad fel gwrthwynebydd cydwybodol yn erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf – fel T Gwynn Jones, ei gyd-ddarlithydd yn Aberystwyth

Fe'i penodwyd i Gadair y Gymraeg yn Aberystwyth ym 1920 ond ni fu'r penodiad yn un didrafferth oherwydd ei safiad yn ystod y Rhyfel. Bu yn y swydd nes iddo ymddeol ym 1952.

Derbyniodd sawl anrhydedd yn ystod ei fywyd, gan gynnwys cael ei urddo'n farchog ym 1958.

Ei briod oedd y gantores, a'r awdures Amy Parry-Williams (Emiah Jane Thomas cyn priodi) (1910-1988) o Bontyberem yng Nghwm Gwendraeth.

Bu farw T H Parry- Williams **hanner can mlynedd yn ô i'r mis hwn, ar 3 Mawrth 1975** yn Aberystwyth.

Cyhoeddodd nifer o gasgliadau o gerddi ac o ysgrifau, yn ogystal ag astudiaethau academaidd o bwys. Yn ei farddoniaeth defnyddiodd Parry-Williams ddwy ffurf yn helaeth, sef y rhigwm a'r soned. Caiff ei adnabod fel 'brenin' y soned Gymraeg. Gwnaeth gyfraniad nodedig fel ysgolhaig.

Bu'n Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol. Rhoddir Medal Syr T. H. Parry-Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru i gydnabod ac anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig, a roddwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth. Enillydd y Fedal hon yn 2018 oedd Meinir Lloyd, Caerfyrddin.

Priodol ym mis ein nawddsant yw dwyn i gof ei gerdd 'Hon' - un o gerddi enwocaf yr iaith Gymraeg – sydd ar ffurf rhigwm. Mae'r gerdd yn ymwneud ag hunaniaeth Gymreig a pherthynas y Cymro â'i wlad. Mae'r cwpled grymus sy'n diweddu'r gerdd wedi'i ddyfynnu ar y tudalen blaen.  Fel y bardd, ni all yr un ohonom ddianc rhag yr hyn ydym mewn gwirionedd. Dyma'r gerdd gyflawn:



.

**Beth yw'r ots gennyf i am Gymru? Damwain a hap**
**Yw fy mod yn ei libart yn byw.  Nid yw hon ar fap**

**Yn ddim byd ond cilcyn o ddaear mewn cilfach gefn,**
**Ac yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn.**

**A phwy sy'n trigo'n y fangre, dwedwch i mi.**
**Dim ond gwehilion o boblach? Peidiwch, da chwi**

**Â chlegar am uned a chenedl a gwlad o hyd;**
**Mae digon o'r rhain, heb Gymru, i'w cael yn y byd.**

**Rwyf wedi alaru ers talm ar glywed grwn**
**Y Cymry bondigrybwyll, yn cadw sŵn.**

**Mi af am dro, i osgoi eu lleferydd a'i llên,**
**Yn ôl i'm cynefin gynt, a'm dychymyg yn drên.**

A dyma fi yno. Diolch am fod ar goll
Ymhell o gyffro geiriau'r eithafwyr oll.

Dyma'r Wyddfa a'i chriw; dyma lymder a moelni'r tir;
Dyma'r llyn a'r afon a'r clogwyn; ac, ar fy ngwir,

Dacw'r tŷ lle'm ganed. Ond wele, rhwng llawr a ne'
Mae lleisiau a drychiolaeth ar hyd y lle.

Rwy'n dechrau simsanu braidd; ac meddaf i chwi,
Mae rhyw ysictod fel petai'n dod drosof i;

Ac mi glywaf grafangau Cymru'n dirdynnu fy mron.
Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.




**CÔR MEIBION CAERFYRDDIN**

**CYNGERDD**

**Dydd Sadwrn - 12 Ebrill 2025 - 7**
**Eglwys Crist, Heol Awst, Caerfyrddin**

| Artistiaid Gwadd | Pumpawd Offerynnol |
|---|---|
| Catrin Aur (Soprano) | Saxybrass |
| Aled Wyn Davies (Tenor) | Parti Merched y Castell |

**Organydd a Chyfeilydd Gwadd – Meirion Wynn Jones**

**Arweinydd – Y Parchedig Wyn Maskell**
**Cyfeilyddes - Heather Williams**

**Tocynnau: £15**

**Janet Evans (HA) ….**



## CYMDEITHAS CAPELI GOFALAETH CAERFYRDDN

***ROEDD*** festri Capel Heol Awst dan ei sang brynhawn Dydd Mawrth, 18 Chwefror, ar gyfer y ddarlith 'Cofio W Rhys Nicholas'. Roedd pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed Richard Eynon Huws yn hel atgofion am ei ewythr gyda Chantorion Brynawel yn canu detholiad o emynau'r Parch W Rhys Nicholas.

Croesawyd pawb gan y Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn James, ac yna canwyd yr emyn agoriadol, 'Dysg inni garu Cymru' gan y gynulleidfa. Darllenwyd Salm 96 ac offrymwyd gweddi fer. Aeth y Gweinidog ymlaen i gyflwyno'r gwesteion. Brodor o Gaerfyrddin yw Richard Eynon Huws yn wreiddiol ac mae'n byw nawr ym Mont-goch, Aberystwyth. Cyn ymddeol bu'n Bennaeth Gwasanaethau Darllenwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Cyflwynwyd Cantorion Brynawel, sef Helen Gibbon, Gwyn Morris a Richard Jenkins a diolchwyd i'r cyfeilydd, Heather Williams. Canwyd dau emyn ganddynt, sef 'Tyrd atom ni, o Grëwr pob goleuni' a 'Mae'r nos yn fwyn ym Methlehem.'



Diddorol sylw mai 'Cofio Wncwl Bill' oedd pennawd anerchiad Richard Eynon Huws. Dyma ddangos yn syth y berthynas agosach rhwn y nai a'r ewythr. Roedd e'n cael ei ystyried ganddo fel 'y nesaf peth at fab go iawn.' Cofia ymweld â'i Wncwl Bill a'i Anti Beti yn Llaindelyn, tŷ gweinidog yng Ngroes-lan, ger Llandysul. Dangoswyd lluniau o'r tŷ, y gadair a enillodd ei ewythr yn Eisteddfod Brynrhiwgaled yn 1954, tŷ tywydd Siôn a Siân a'r tŷ adar a adeiladwyd gan ei ewythr oedd yn saer coed medrus iawn. Cofia'r ddefod ddyddiol o fwydo'r adar a hoffter ei ewythr o fyd natur.

Mae ganddo atgofion hapus iawn o'r gwyliau a dreuliodd yno yn blentyn - roedd digon o amser gan yr ewythr i'w roi i'w nai. Cofia chwarae golff ar y lawnt, teithiau yn y car i lan y môr ac i Wasg

Gomer. Roedd ei ewythr wrth ei fodd yn darllen proflenni ac mae'n bosibl fod hyn wedi dylanwadu arno.

Soniwyd hefyd am ymweliadau'r nai gyda'i wraig a'i fab â chartref ei ewythr ym Mhorthcawl pan oedd yn weinidog yno a'r teithiau i leoedd fel Eweni a'r ffair bleser yn Coney Beach. Cofia sgyrsiau byr gyda'i ewythr tan oriau mân y bore yn trafod crefydd a gwleidyddiaeth pan ddaeth i aros gyda'r teulu yn Aberystwyth.

Wedi marwolaeth W Rhys Nicholas yn 1996 daeth ei nai o hyd i ddau emyn newydd wrth archwilio rhai o'i ddisgiau o'r cyfrifiadur. Un ohonynt oedd emyn Cymorth Cristnogol:

*Agor ein llygaid, Arglwydd*
*i weld angen mawr y byd.*

Wrth gloi dywedodd mor ffodus ydoedd i gael Wncwl Bill ac Anti Beti yn ewythr a modryb iddo a bod ei ddyled i'r ddau yn fawr.

Canwyd emyn arall gan Gantorion Brynawel, sef 'Mae'r gaeaf ar fy ysbryd' a'r emyn arbennig Pantyfedwen.

***DIOLCHODD*** y Gweinidog am y portread annwyl a chynnes o Wncwl Bill. Diolchwyd hefyd i'r cantorion a Heather, ac i Olga Williams am drefnu'r achlysur ac i bawb am brynhawn hyfryd.
Yna canwyd yr emyn 'Agor ein llygaid, Arglwydd' gan y gynulleidfa.

**CWRDD CHWARTER**
**ELIM, FFYNNON-DDRAIN**



**Dydd Iau, 13 Mawrth 2025**

Y Gynhadledd am 10.30 a Chyfarfod y Prynhawn am 1.30



Bydd Cyfarfod y Prynhawn yng ngofal Pwyllgor Cenhadol y Cyfundeb. Y gwestai fydd Y Parchedig Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair sy'n rhan o'r Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb

# Y GYMDEITHAS

## COFIO W RHYS NICHOLAS







**MAWRTH Y CYNTAF**




**Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y cyntaf yw diwrnod dathlu cenedlaethol ni'r Cymry sef dyddiad Gŵyl ein nawddsant, Dewi Sant. Rydyn ni'n dathlu'i fywyd bob blwyddyn ar y diwrnod hwn. Mae'r diwrnod yn cael ei ystyried fel yr un mwyaf enwog a phwysig yn hanes a diwylliant Cymru gan laweroedd.**

**Tybed faint o ddigwyddiadau eraill o bwys sy'n gysylltiedig a'r diwrnod hwn?**

**Dyma rai ohonynt:**

**Lansiwyd Y Beibl Cymraeg Newydd ar Ŵyl Dewi ym 1988 (y Beibl cyflawn yn cynnwys yr Apocryffa) a hynny ym mlwyddyn dathlu Pedwar-Canmlwyddiant Beibl yr Esgob William Morgan. Cafwyd argraffiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg Newydd yn 2004.**



**Cafodd y Testament Newydd ei gyhoeddi gyntaf ar www.beibl.net ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2002, a lansiwyd y Beibl cyfan ar y Wefan ar 1 Mawrth 2013, ac ymddangosodd mewn print am y tro cyntaf yn 2015. Mae beibl.net yn agor Gair Duw i'r genhedlaeth ifanc. Mae'n gyfieithiad llafar syml, hawdd i'w ddarllen, o'r ysgrythurau. Mae'n galluogi pobl ifanc, dysgwyr y Gymraeg ac eraill, i 'glywed' a deall neges yr Efengyl.**

**Ar Ddydd Gŵyl Dewi 1953 y darlledodd y BBC y rhaglen deledu gyfangwbl Gymraeg gyntaf, sef oedfa o Gapel y Tabernacl, Caerdydd.**



**Bu diwedd trist i fywyd Gruffudd ap Llywelyn Fawr neu Gruffudd ap Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Gogledd Cymru, mab Llywelyn Fawr a thad Llywelyn Ein Llyw Olaf a Dafydd ap Gruffudd. Cafodd ei garcharu yn Nhŵr Llundain. Dywedir iddo syrthio i'w farwolaeth wrth geisio dringo i lawr a dianc, a hynny ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1244.**

**Cynhaliwyd Referendwm Datganoli i Gymru ar y 1 Mawrth 1979 ond gwrthodwyd cynlluniau'r Llywodraeth. Pleidleisiodd Cymru 'ie', dros ddatganoli i Gymru mewn ail refferendwm ym mis Medi 1997.**



**Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006 agorwyd adeilad y Senedd yng Nghaerdydd, gan y Frenhines Elisabeth II.**


**Gosodwyd carreg Sylfaen Coleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan ar y deuddegfed o Awst 1822; croesawyd y myfyrwyr cyntaf ar Ddydd Gŵyl Dewi 1827 a derbyniodd ei Siarter Brenhinol yn 1828. Dyma sefydliad dyfarnu graddau hynaf Cymru. Erbyn heddiw, mae'n rhan annatod o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.**




**Agorwyd Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Llanelli, ar Ddydd Gŵyl Dewi 1947, yn ysgoldy Capel Seion yn y dref. Hon oedd yr ysgol benodedig Gymraeg gyntaf i'w chynnal yn llwyr gan Awdurdod Addysg Lleol, gan gychwyn pennod newydd yn hanes addysg yng Nghymru.**



**Ar 1 Mawrth 1965 cyrhaeddodd y canwr Tom Jones frig y siartiau am y tro cyntaf gyda'i sengl It's Not Unusual.**



**Ar 1 Mawrth 1986 bur farw Tommy Farr, y bocsiwr enwog o Donypandy yn y Rhondda.**

**Efallai y gwyddoch am ragor o ddigwyddiadau ar y diwrnod arbennig hwn. Beth am roi gwybod i ni?**

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
**Trowch at: cyfundeb.com**

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'C'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Cas gŵr na charo wlad a'i --- |
| | |
| 2 | Castell pawb, ei --- |
| | |
| 3 | Codi cyn cŵn --- |
| | |
| 4 | Cura'r haearn tra fyddo'n … |
| | |
| 5 | Cyfaill blaidd, bugail --- |
| | |
| 6 | Cyfoeth a chwanega lawer o --- |
| | |
| 7 | Cyn cychwyn gwêl y --- |
| | |
| 8 | Cynnar i hau, cynnar i --- |
| | |
| 9 | Cynt y cyferfydd dau ddyn na dau --- |
| | |
| 10 | Cyntaf i'r felin a gaiff ---- |

Atebion ar Dudalen 33

## CHWIORYDD ELIM



Cafwyd prynhawn pleserus iawn yn festri Elim prynhawn Mawrth 11 Chwefror.

Croesawyd Janet Knott atom a bu'n sôn am ei gyrfa hir ym myd nyrsio, a'r blynyddoedd a dreuliodd fel nyrs yn y gymuned.



Daeth â chasgliad helaeth o declynnau a nwyddau o fyd nyrsio gyda hi i'w harddangos, a nifer o'r chwiorydd yn galw i gof feddyginiaethau gwahanol o'r gorffennol.

Roedd yn brynhawn gwirioneddol ddiddorol a phleser oedd gwrando ar Janet.

Mwynhawyd danteithion a phaned o amgylch y byrddau a chyfle i ddymuno'n dda i Mattie a oedd ar fin dathlu pen-blwydd arbennig. Prynhawn pleserus iawn yn wir.

## OEDFA DEULU GŴYL DEWI YN Y TABERNACL












**OEDFAON DYDD GWEDDI'R BYD 2025**

**Eglwys Llangynnwr**

**Dydd Gwener, 7 Mawrth 2025**

**Oedfa Gymraeg am 10.30 / Oedfa Saesneg am 2.00**

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 28 MEDI 2025 am 5**
**Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP**

**PLANT YSGOL SUL ELIM YN PARATOI AR GYFER OEDFA GŴYL DEWI CAPELI /EGLWYSI CYMRAEG CAERFYRDDIN**



**PLANT YSGOL SUL PRIORDY YN MEDDWL AM EIRIAU CAREDIG AR SUL CYFIAWNDER HILIOL**





## Gŵyl Dewi


Da iawn i bawb a gymerodd ran yn oedfa Gŵyl Dewi'r dref. Fe wnaethoch eich gwaith yn wych!


**"Gwnewch y pethau hynny dych chi wedi'u dysgu a'u gweld a'u clywed gen i. A bydd y Duw sy'n rhoi ei heddwch gyda chi."**

**Philipiaid 4 adnod 9**

Defnyddia'r cod i ddarganfod rhywbeth ddywedodd Dewi Sant.

| A | B | CH | E | G | I | N | P | TH | U | W | Y |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|





## Chwilotair Gŵyl Dewi

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | R | E | G | E | T | H | U | Y | G | L | A | L | N |
| A | S | C | O | L | O | M | E | N | P | U | W | N | H |
| G | E | D | E | E | A | S | T | N | S | Y | L | W | C |
| G | N | N | H | A | E | F | E | N | G | Y | L | W | U |
| G | A | G | R | Y | E | S | S | E | E | N | W | N | M |
| D | G | S | U | N | I | L | U | A | P | P | N | U | C |
| C | Y | H | N | G | H | N | E | N | N | N | N | G | Y |
| M | A | S | C | E | P | M | H | L | W | T | O | L | M |
| E | E | N | G | A | W | N | T | N | R | H | N | S | R |
| F | L | F | S | U | N | A | W | C | H | N | P | D | A |
| L | A | Y | E | M | E | Y | L | N | A | A | E | E | E |
| I | A | A | G | N | N | C | M | L | D | A | W | W | G |
| F | H | E | O | M | H | T | H | I | A | P | A | I | L |
| N | R | O | H | A | N | C | E | S | L | G | G | I | S |

COLOMEN
PAULINUS
HANCES
SANT
EFENGYL
CYMRAEG
LLAWEN
DYSGU
PREGETHU
MYNACH
DEWI
NON

**Gweddi**

Diolchwn i ti, ein Tad, am Gymru.
Diolch i Ti am roi gwlad mor hyfryd i ni.
Heddiw rydyn ni'n gofyn i ti i fendithio ein hardal a'n gwlad.
Helpa ni i fyw i dy blesio di, i dy garu Di,
i ddilyn Iesu ac i helpu pobl o'n cwmpas ni.
Yn enw Iesu Grist, Amen



Hwyl fawr tan tro nesaf!
Beti Wyn

## YSGOL SUL ELIM YN DYSGU AM DEWI SANT



## YSGOL SUL Y PRIORDY YN PARATOI AR GYFER GŴYL DEWI



# OEDFAON GŴYL DEWI 2025

Bydd pobl drwy'r byd i gyd yn Dathlu Gŵyl Dewi mewn gwahanol ffyrdd eleni eto fel ag erioed. Go brin bod gwell ffordd o wneud hynny na thrwy gynnal oedfa, yn enwedig o gofio nodweddion ein Nawddsant. Roedd Dewi Sant yn ddilynwr i Iesu Grist, yn Gristion a oedd eisiau dweud wrth bawb am Iesu.




Priodol felly oedd i Gapeli ac Eglwysi Cymraeg ein tref ymgynnull yng Nghapel y Tabernacl ar gyfer Oedfa Deulu ar Fore Sul 23 Chwefror i ddathlu'r Wyl ac i ddiolch i Dduw am fywyd a gwaith ein Nawddsant.



Digon stormus a digalon oedd y tywydd ond buan y diflannodd y diflastod wrth i'r Tabernacl ein croesawu a'n hannog i gyd i wenu!

Mae'n diolch yn fawr i'n hysgolion Sul – Elim, Eglwys Crist a'r Priordy - am eu rhan bwysig yn y gwasanaeth yn cyflwyno'r emynau (Dysg imi garu Cymru - CFf 832 / Tydi, O Dduw, a beraist - CFf 833), y gân gynulleidfaol (Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain), y darlleniadau o'r Beibl a'r weddi. Gwnaethant eu gwaith yn hynod o raenus a hyfryd hefyd oedd eu gweld yn dod at ei gilydd yn gôr i ganu cân o ddiolch i Ddewi. Y cyfeilyddion oedd Band y Priordy gyda Dafydd (Hermon) yn helpu ar y drymiau.

Cafwyd yn ogystal eitem hwyliog ac ysgafn gan wragedd y Priordy a'r Tabernacl ond go ddifrifol oedd y neges. Buont yn dwyn i gof Apêl Heddwch Menywod Cymru i ddod â diwedd i ryfela yn dilyn erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf – apêl am heddwch sy'n llawn mor berthnasol i ni heddiw.



Y siaradwr gwadd oedd Y Parchedig Catrin Roberts Caerdydd (gynt o Landdarog). Roedd hi'n teimlo'n sicr y byddai Dewi yn ein hannog ni oll heddiw fel ddoe i newid rhai pethau yn ein bywydau er mwyn creu gwell byd. A thrwy ddefnyddio pypedau llwyddodd i gadw diddordeb a chwilfrydedd ein plant wrth sôn am y pethau bychain hynny y gallwn ni eu newid heddiw er mwyn dod yn well pobl. Rydyn ni'n ffodus ein bod yn gallu gofyn i Iesu am help. Mae'n gallu newid ein bywydau.


Diolchodd ein Gweinidog i bawb a gymerodd ran ar y diwedd, i athrawon yr

Ysgol Sul a'r rhieni am eu help, i'r siaradwr gwadd ac i Mererid Hopwood am sgript mor afaelgar a Chapel y Tabernacl am y croeso. Aeth y casgliad tuag at sicrhau Beibl Cymraeg i ddisgyblion yn ein hysgolion Cymraeg lleol.



Cyflwynwyd y Fendith wrth ymadael gan Heol Awst. Da yn wir oedd bod yn y Tabernacl y bore hwn.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun Undebol yn yr hwyr yng Nghapel y Babell Zion Newydd. Mae'n diolch i bawb a gymerodd ran: Joan Thomas (HA) a Margaret Walters (Tabernacl) - Darlleniadau, Luned Voyle Thomas (P) - Gweddi, Y pregethwr gwadd oedd Y Parchedig Hywel Davies, Aberdâr (gynt o Landdarog) a chafwyd neges hynod o ysbrydoledig ganddo cyn i bawb gydgymuno. Y Parchedigion Emyr Williams a Beti-Wyn fu'n gyfrifol am y Cymun a chafwyd cymorth Bet Jones (E) a Helen Gibbon (BZN) i'w weini. Gyda'r oedfa hon daeth i derfyn Sul hynod o gyfoethog, gan roi'r dechrau gorau i'n dathliadau Gŵyl Dewi.



DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL

FFILMIO YN HEOL AWST

NOS SUL 8 MEHEFIN 2025
6 PM
DRYSAU'N AGOR AM 5.30 PM

*NODWCH Y DYDDIAD*
*OS GWELWCH YN DDA*
*MWY O FANYLION I DDOD*

DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL




Neuadd San Pedr
5 Ebrill 2025
Theatr Bara Caws

Theatr Genedlaethjol Cymru
Lyric
7 Mai 2025



## Peter Hughes Griffiths yn trafod mwy o Addoldai'r Dref



***Yn rhifyn Tachwedd 2024 soniais am addoldai Heol Y Prior yn nhref Caerfyrddin gan nodi mai dim ond Capel Y Priordy sydd bellach yn weithredol, er y bydd hen Gapel Bethania yn Ganolfan Mwslemaidd cyn bo hir.***

Felly, dowch i ni gael golwg bellach ar rai addoldai a chyn addoldai sydd o'n cwmpas gan ddechrau yn **Heol Mansel** gyda chyn addoldy yr Undodiaid. Adeiladwyd Parc-y-Felfed, sydd gyferbyn â'r farchnad yn 1849. Erbyn 1976 roedd yr adeilad mewn cyflwr drwg iawn ond yn 2005 fe'i trowyd yn ddeintyddfa gan gadw ei holl bensaernïaeth hyfryd.




Yna, hanner can llath i fyny'r ffordd, ac ar y dde, mae cyn addoldy Capel Zion sydd erbyn hyn yn Ganolfan Camerâu Caerfyrddin. Mae'n werth i chi daro mewn wrth fynd heibio er mwyn gweld sut mae'r lle wedi ei adnewyddu mor bwrpasol gan lwyddo i gadw cymeriad yr hen adeilad. Adeiladwyd y Capel Presbyteraidd gwreiddiol yn 1850 gan y rhai a oedd yn siarad Saesneg ac yn addoli yng Nghapel Cymraeg Heol Dŵr. Yr arweinydd oedd Mr George Stephens a anfonwyd o Lundain i ddelio gyda helyntion Beca yn yr ardal. Fe'i adnewyddwyd yn 1951 ac yna yn Ganolfan Camerâu yn 2017.






Ar y dde ar waelod **Heol Awst** mae Eglwys y Bedyddwyr Saesneg a adeiladwyd yn 1870 ar gyfer y gweithwyr a ddaeth i Gaerfyrddin i ddatblygu'r rheilffordd a masnach. Fe'i cynlluniwyd gan y pensaer enwog George Morgan. Mae'n adeilad hardd iawn gyda phedair colofn uchel iawn wrth y fynedfa. Ers 25 mlynedd mae festri'r capel wedi cael ei ddefnyddio gan yr aelodau fel Canolfan Gymdeithasol, ond ers Hydref 2022 sefydlwyd partneriaeth newydd trwy agor 'Cegin Hedyn'

yno ar ddau ddydd o'r wythnos sy'n cynnig cinio llysieuol am ddim neu am unrhyw gyfraniad ariannol. Bu'r Parch Gwilym Davies, a sefydlydd y Neges Ewyllys Da, a'r heddychwr enwog, yn weinidog ar yr eglwys am gyfnod o 1908 – 1915. Mae cofeb iddo yn nodi hynny ar y mur ar y ffordd i mewn wrth y gatiau.



Wrth ochr Banc y Midland yn Heol Awst mae agoriad rhwng yr adeiladau sy'n arwain i *Quakers Yard.* Yn y fan hon yn 1746 yr adeiladwyd Tŷ Cwrdd Y Crynwyr. Yno y cynhaliwyd cyfarfodydd mawr yn 1778 a 1787, ond tua diwedd y ddeunawfed ganrif nid oedd llawer o lewyrch a fawr neb yn mynychu'r lle. Yna, fe werthwyd yr adeilad yn 1831 a bu ysgol yno tan 1887.   Roedd cofeb o garreg ar y wal yn *Quakers Yard* yn ymyl y tŷ o'r enw *Retreat, ac* arni –



"This wall and pine end is the Property of the People called Quakers 1777". Mae'r garreg wedi diflannu erbyn hyn. Mae Mynwent y Crynwyr ar y safle hwn hefyd ac fe godwyd esgyrn yn ystod cyfnodau yr ail adeiladu.

Yn yr ardal tu cefn i Westy'r Hebog bu Mynachlog Y Brodyr Llwydion, ac mae iddo ei hanes arbennig iawn cyn i ni ddod at Gapel Heol Awst a adeiladwyd yn 1726 er mai yn 1826 y codwyd yr adeilad presennol, ac yna adeilad 'Yr Ysgol Sul'





yn 1888-89.  Mae hwn yn gapel enwog iawn yn hanes yr Annibynnnwyr ac yn rhan o Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin bellach.


Agorwyd yr Eglwys Annibynnol Saesneg sydd drws nesaf i Siop Bapurau Cogans yn 1862 gan aelodau di Gymraeg Capel Heol Awst. Mae gwasanaethau yn dal i gael eu cynnal yno.  Ac ar ben uchaf Heol Awst mae Eglwys Crist a oedd yn Eglwys Saesneg i Blwyf San Pedr, ac ar gyfer y

plwyfolion di-Gymraeg. Agorwyd yr eglwys yn 1869. Bellach, ar ôl



cau Eglwys Dewi Sant gerllaw mae gwasanaethau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnal yn Eglwys Crist, ac mae'r eglwys a'r festri yn cael eu defnyddio'n gyson ar gyfer pob math o weithgareddau cymunedol gan gynnwys Banc Bwyd wythnosol Caerfyrddin.

***Bydd Peter yn sôn am addoldai a chyn addoldai eraill sydd yn y dref eto yn y rhifyn nesaf.***




**HEFYD**

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **22.04.2025** | **Mawrth** | | | **Taith Ddirgel** |



***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**Eich pethau bychain chi**

Ystyriwch eich pethau bychain chi,
y pethau bach a gariwch yn gwmni
ym mhoced gudd eich calonnau
bob dydd
yn gwmws fel pecyn mints neu hancesi.

Tynnwch nhw mas a'u dangos i'r golau,
gosodwch nhw ar y bwrdd o'ch blaenau,
neu eu dala ar gledr eich llaw a'u troi
gan graffu, syllu, sylwi.
A chofiwch mai'r pethau bychain hyn sy'n rhoi blas i'ch byw
yn union fel gronynnau halen.
Y pethau bychain hyn ddaw â lliw i'ch byd,
ddaw ag ystyr mwy i bethau o hyd.

Pa bethau bychain dynnwch chi o'ch poced heddi, gwedwch?

Gwên dieithryn ar stryd brysur mewn dinas
sy'n siŵr o lonni diwrnod diflas.
Adar yn rhannu cân heb warafun 'run dôn na nodyn
o fore gwyn tan blyg y dydd yn blet liw nos wedyn.
Dail y coed yn newid eu lliwiau'n bert
gyda thro ffasiynol bob tymor, mor hawdd â newid sgert.
Torri syched dros baned o de
ac iro sgwrs i helpu rhoi'r byd yn ei le.

Y pethau bychain hyn yw'r brodwaith
y pwytho sy'n gwneud pob dim yn brydferth, sdim dwywaith.
Y pethau bychain fel darnau gwydr ein bywyd a lathrwyd
yn llachar a llyfn gan fynd a dod y môr a'i donnau llwyd.

Pethau pwysig yw'r pethau bychain, does dim dwy,
am mai'r pethau hyn sy'n creu y rhywbeth mwy.

**Elinor Wyn Reynolds**



## Ein Papur yn sgwrsio ag un o ferched ifainc ein Gofalaeth –

## Heledd Jones



**EP: Rwyt ti wedi cymhwyso fel athrawes ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Heledd, ond fferm ac nid ysgol sydd wedi dwyn dy fryd. Tybed pam?**

**HJ**: *Ers yn ferch fach roedd gen i ddyhead i fod yn athrawes gynradd ac felly fe fues i'n astudio am dair blynedd gan fwynhau agweddau amrywiol ar y cwrs. Ond hefyd roedd amaethu erioed wedi bod yn fy ngwaed a dw i'n parhau hyd heddiw i fwynhau bod allan gyda'r anifeiliaid. Cafodd y pandemig effaith mawr ar flwyddyn a hanner o'r cwrs ac yn y cyfnod hwnnw roeddwn yn mwynhau gallu bod gartre. Wedi hynny, sylweddolais nad oedd modd gwneud y ddwy swydd ac roedd rhaid penderfynu. Ffermio roeddwn eisiau'i wneud ond rwy'n falch iawn o'r sgiliau a ddysgais a'r ffrindiau a wnes am oes yn ystod fy nghyfnod yn y Brifysgol. Dw i hefyd yn falch fy mod yn ffermio ac i fod yn hollol onest fyddwn i ddim wedi bod yn gysurus o gwbl ar golli allan ar ddigwyddiadau'r fferm er mwyn mynd i'r ysgol, yn enwedig adeg y cynhaeaf!*



**EP: Enw'r fferm deuluol yw'r Hengil Fach ym Mheniel. Oes tasgau penodol gyda ti yno?**

**HJ:** *Rydym yn byw ar fferm Hengil Fach sy'n rhan o fferm ein teulu ni sef Cefnhenllan. Dyma gartref Dad, mae e'n un o dri brawd ac mae'r tri theulu'n cydweithio ar y fferm yma. Mae brawd hynaf Dad a'i deulu yng Nghefnhenllan a'r brawd canol a'i deulu'n byw'n gyfagos ar fferm Ffosygest. Fferm laeth sydd gyda ni ble rydym yn godro oddeutu 200 o wartheg a'r rhan fwya yn frïd 'British Friesian.' Mae gennym hefyd stoc ifanc rydym yn ei fagu ar gyfer ymuno â'r fuches odro. O ddydd i ddydd, fe wnewch chi fel arfer fy narganfod yn sied y lloi! Dyma ble dw i'n mwynhau fwyaf, er bod angen tipyn o amynedd i'w bwydo ar adegau. Rwyf hefyd yn godro ar y fferm ac yn mwynhau gwneud y swydd! Mae byw ar fferm yn amgylchedd brysur iawn, a does dim dal pa dasg sydd angen ei gwneud. Rydyn ni'n lwcus iawn ar ein fferm i allu cydweithio fel teulu. Mae o hyd rywbeth i'w wneud!*

**EP: Mae deryn bach yn dweud fod dy chwaer Rhiannon a thithau wedi dechrau ar fenter newydd ar y fferm. Elli di ddweud ychydig amdani?**

**HJ:** *Mae'r ddwy ohonom wedi cael breuddwyd ers tipyn bellach i brynu defaid! Eleni rydym wedi mentro wrth brynu 5 dafad Texel i ddechrau er mwyn gweld shwd yr aiff hi. Maent yn dipyn yn wahanol i'r gwartheg gartre ond rydym yn mwynhau'r gwaith ac yn cydweithio'n dda gyda'n gilydd (rhan fwyaf yr amser!). Rydym yn gobeithio datblygu'r ddiadell ymhellach gan barhau i dyfu'r niferoedd yn y dyfodol.*



**EP: Rwyt ti'n un o aelodau amlwg Clwb Ffermwyr Ifainc Dyffryn Tywi. Sut dechreuodd y diddordeb, Heledd?**

**HJ:** *Dyma oedd clwb Mam a Dad ac felly roedd ein plentyndod yn cynnwys mynychu'r digwyddiadau megis rali Sir Gâr pob blwyddyn. Roedd ein cefndryd a'n cyfnitherod wedi mynychu'r clwb hefyd ac felly doedd dim amdani ond dilyn ôl troed y teulu ac ymuno â'r clwb. Roeddwn yn bymtheg mlwydd oed yn dechrau ac ers y noswaith gyntaf dw i heb edrych yn ôl. Cystadleuaeth yr Eisteddfod sef meim oedd yr un gyntaf i mi gystadlu ynddi a 'Pentre Bach' oedd ein thema'r flwyddyn ohono – ers hynny does dim dal pa wisg neu gymeriad sydd angen eu dynwared! Dros y blynyddoedd dw i wedi cael y cyfle i gystadlu mewn llu o gystadlaethau gwahanol o'r siarad cyhoeddus i'r barnu stoc, grŵp canu i sylwebu, creu arwydd i'r rali a chwarae pêl-rwyd - dim ond i enwi rhai. Mae'n rhoi cyfle di-ri i chi hefyd i ymweld â llefydd gwahanol megis ffermydd diddorol, ymweliad â Chastell Howell a hyd yn oed y profiad o wneud 'Zumo Wrestling'. Ond yn fwy na dim cael cwrdd â phobl o'r un anian, sy'n mwynhau byw yng nghefn gwlad ac yn ymddiddori yn y byd amaethyddol. Er hynny does dim angen i rywun fod yn ffermwr i ymuno â'r mudiad, mae'r clybiau'n gyfle grêt i ddatblygu amryw o sgiliau gwerthfawr gan greu ffrindiau am oes.*

**EP: Sut brofiad oedd bod yn Gadeirydd y Clwb?**

**HJ:** *Cefais y fraint fod yn Gadeirydd ar y clwb am ddwy flynedd, ac mi wnes i fwynhau'r profiad ond roedd yn gyfnod prysur tu hwnt! Mae gan bob clwb swyddogion o ysgrifennydd, trysorydd, swyddog cofnodion cyfarfodydd a swyddog cymdeithasol yn ogystal ag arweinwyr clwb – roeddwn yn ffodus i fod yn rhan o dîm da oedd yn gefnogol iawn i'r clwb. Roedd y clwb yn dathlu 85 mlynedd o fodolaeth yn 2024 ac felly roedd yn bwysig i'r clwb ddathlu'r garreg filltir hon. Cynhaliwyd noswaith cwis a bingo yn ogystal â chyngerdd yn Sied Pontargothi lle bu rhai o gyn-aelodau'r clwb yn perfformio mewn sgets (oedd yn cynnwys Dad!) a chôr y clwb o bob oedran yn cymryd rhan. Fe fuom hefyd yn codi arian ar gyfer elusen Ysbyty Arch Noa a llwyddwyd i godi £10,000 eleni. Dyma beth sy'n arbennig am y mudiad - mae'n rhoi cyfleoedd a phrofiadau i weithio mewn tîm i gwblhau nifer o ddigwyddiadau gwahanol. Mae arna i dipyn o ddiolch i'r mudiad.*

CFfI YFC CYMRU | WALES

*Cefais fy addysg orau yno - sgiliau a phrofiadau a fydd gennyf am byth. Fyddwn i'n sicr ddim pwy ydw i heddiw heb y mudiad, mae'n rhywbeth arbennig iawn i gael bod yn rhan ohono a sut mae'n cefnogi a datblygu pobl ifanc cefn gwlad a hynny ers blynyddoedd.*

**EP: Ti wedi cael llawer o lwyddiant, o ddyddiau Ysgol Bro Myrddin, mewn siarad cyhoeddus. Wyt ti'n mwynhau'r cystadlu a beth mae'r profiad wedi'i ddysgu i ti.**
**HJ:** *Fe ddechreuais gystadlu yng nghystadlaethau siarad cyhoeddus pan oeddwn ym mlwyddyn 10 yn Ysgol Bro Myrddin – sgil sydd yn hynod o bwysig i'w dysgu. Roeddwn yn mwynhau medru cystadlu gyda'n ffrindiau wrth wneud y fformat 'Seiat Holi.' Roedd y pynciau yn amrywio o'r hyn a welwyd ar y newyddion, i sefyllfa bresennol yr iaith Gymraeg i unrhyw beth ble'r oedd modd dadlau. Cefais lu o brofiadau gwahanol (a nerfus!) i gystadlu, fe fuom yn lwcus iawn fel tîm Bro Myrddin i ennill yn Eisteddfod yr Urdd yn 2017 a 2018 gan ddod yn ail hefyd gyda'r Rotari dros Gymru! Mae'r diolch mwyaf am hyn yn mynd i'n hathro Mr Steffan Davies a ddysgodd i mi sut i siarad yn gyhoeddus a rhoi'r hyder i ni fel tîm i gystadlu. Bydden ni'n sicr heb fentro cystadlu heb ei ddysg a'i anogaeth. Bues hefyd yn cystadlu gyda mudiad y ffermwyr ifanc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Buodd ein clwb yn hynod o lwcus i ennill ar adegau yn y Sir a Chymru ac yn 2021 cafwyd cyfle i fynd i Stafford er mwyn cystadlu yn Genedlaethol ac ennill. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig i brofi bod modd i ni gystadlu yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.*

**EP: Rwyt ti, fel dy chwaer, wedi cymryd rhan hefyd yn y Priordy dros y blynyddoedd ac yn dal yn ffyddlon i'r gwasanaethau. Wyt ti'n cofio dyddiau'r Ysgol Sul, er enghraifft?**
**HJ:** *Mae gen i atgofion da iawn o fynychu'r Ysgol Sul lle'r oedd cyfleoedd diri i fwynhau pob math o wahanol brofiadau. - Dw i'n cofio bod yn rhan o dîm cwis y Priordy gyda MIC a chystadlu yn erbyn ysgolion Sul eraill gan adolygu ar destunau gwahanol yn ymwneud â'r Beibl cyn cystadlu. Roedd y Nadolig, wrth gwrs,yn gyfnod cyffrous yn yr Ysgol Sul gyda'r paratoadau a'r ymarferion ar gyfer y Gwasanaeth. Bues yn actio fel angel, chwarae rhan Mair, canu'r ffidil, gwneud 'rap' ac roeddwn o hyd yn mwynhau cael bod yn rhan ohono. Hyd heddiw dwi'n mwynhau gweld y Gwasanaeth Nadolig sy'n dod ag atgofion hapus o'm plentyndod i mi. Mae gen i atgofion melys iawn o'r athrawon Ysgol Sul Mrs Tina Charles a Mrs Chris Lloyd. Roeddwn yn dwli eu gweld wrth ddod i'r Priordy a byddai Mrs Charles o hyd yn tynnu ein coes ei bod am gael tro ar ein beic pinc roeddwn wedi'i gael adeg y Nadolig! Dyma lle cefais gyfle i ddarllen emyn yn gyhoeddus am y tro cyntaf a mae Mam yn dal i dynnu fy nghoes fy mod wedi ei llusgo hithau i'r pulpud gyda fi y tro cyntaf wnes i ddarllen a minnau tua 5 mlwydd oed. Dw i'n falch i ddweud nad ydyw i yn ei llusgo hi i fyny'r i'r pulpud rhagor ond o hyd yn falch i weld ei hwyneb yn y gynulleidfa er mwyn helpu gyda'r nerfau!*

**EP: Mae cyswllt agos iawn â'r Priordy gan dy deulu wrth gwrs. Elli di ddweud gair neu ddau am hyn?**
**HJ:** *Mae'r Priordy erioed wedi bod yn rhan bwysig a chanolog i'n teulu ni ac wedi chwarae rhan yn rhai o ddiwrnodiau pwysicaf ein teulu. Mae gennyf atgofion hyfryd o fynychu'r Capel gyda Mam-gu. Roeddwn wrth fy modd yn cael bod yn ei chwmni ac yn gweld ei heisiau pob dydd. Roeddwn yn sylweddoli yn ifanc ba mor bwysig oedd y Priordy a chymdeithas y Capel iddi*.

**EP: Wyt ti'n meddwl fod mynd i gapel neu eglwys yn bwysig i ni heddiw?**
**HJ:** *Yn sicr. Mae crefydd a mynychu capel wedi newid dros y blynyddoedd ond wrth ystyried y byd sydd ohoni heddiw dw i'n credu bod cymuned y capel a'r eglwys yn bwysicach nag erioed. Mae'r sylfaen yr ydych yn ei chael gyda'r Ysgol Sul yn hollbwysig wrth ddysgu am storïau gwahanol, cael cyfle i ddarllen emyn yn gyhoeddus a chyfleoedd i fod yn rhan o gymuned. Mae cyfnodau digon anodd yn medru bod yn ein bywydau ac mae'n anodd weithiau gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd i ni'n bersonol ac o'n hamgylch ni. Mae mynychu'r capel a'r gweithgareddau a ddaw gyda hynny yn gymorth mawr i nifer o bobl gan eu bod yn eich gwneud i deimlo nad ydych arreich pen eich hun yn byd yma.*

**EP: I gloi, Heledd, er bod gennyt fywyd llawn iawn gyda'r ffermio a'r clwb ffermwyr ifainc, mae'n rhaid bod gennyt hefyd gyfle i ymlacio. Beth wnei di'r pryd hynny?**
**HJ:** *Dw i'n mwynhau cymdeithasu gyda ffrindiau wrth fynd i'r clwb ffermwyr ifanc ar nos Wener, neu wrth fynd allan am fwyd. Yn ystod yr haf, mae'r sioeau amaethyddol yn llenwi'r dyddiadur a dw i'n mwynhau medru mynychu a chymdeithasu. Dw i hefyd yn mwynhau mynd i gerdded, yn enwedig ar lan y môr, yn yr haf a'r gaeaf, mae yna rywbeth sbesial am glywed sŵn y tonnau. Yn ogystal dw i wrth fy modd yn darllen llyfrau o bob math, ffuglen, ffeithiol a chylchgronau. Mae'n rhoi cyfle i mi ymlacio ar ddiwedd y dydd a seibiant o'r gwaith. Mae teithio o ddiddordeb mawr hefyd a dw i'n mwynhau mynd i wahanol lefydd er mwyn gweld ardaloedd newydd o'r wlad hon a'r byd hefyd.*



***Diolch yn fawr iawn i ti am y sgwrs Heledd a phob hwyl i ti ar y fferm a chyda'r ffermwyr ifainc!***

**OEDFA BASG CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 4 Ebrill – 2.30 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**





## PANED A SGWRS




**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Bore Mercher 19 Mawrth 2025 am 10.30**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

**Taith Gerdded Haf yr Ofalaeth**
**gyda phaned i ddilyn**

**Prynhawn Sadwrn, 14 Mehefin 2025**
**Mwy o fanylion i ddod.**

**Nodwch yn dyddiad**

**Trefnir ar ein cyfer gan**
**Gapel Bancyfelin**



## GAIR O WERTHFAWROGIAD

**Diolch i Phil a Peter Hopley am baentio cyntedd Capel Heol Awst ac i Huw Jones am drefu gwaith plymio yng nghegin Y Priordy**

## GWAHODDIAD
## TALWRN Y DAFFODIL



**Noson llawn hwyl yng nghwmni**
**Yr Archdderwydd Mererid**
**a'r**
**Prifardd Tudur Dylan**

**Timau Beirdd Yr Ysgol Farddol,**
**Cwm Gwendraeth a'r Priordy**

**Nos Iau 20 Mawrth 2025 am 7.30**
**YN THEATR YR EGIN, CAERFYRDDIN**
**(Casgliad tuag at Ymchwil Cancr Cymru)**
***CROESO CYNNES I BAWB***

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | maco | 6 | gyfeillion |
| 2 | dŷ | 7 | diwedd |
| 3 | Caer | 8 | fedi |
| 4 | boeth | 9 | fynydd |
| 5 | diog | 10 | falu |

# RHWYDWAITH

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Daisy Devonald (HA), Lloyd Thomas (HA), Spencer Nicholas (HA) a Rhiannydd Powell (HA). Cofion annwyl atoch i gyd.

Mae’n gyfnod digon pryderus i staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd wedi’r cyhoeddiad ynghylch y posibilrwydd o gwtogi ar staff, cau adrannau a chyfuno rhai eraill. Mae bygythiad i rai pynciau yn cynnwys nyrsio a cherdd. Bu Elain Owen (P) yn sôn am y bygythiad i nyrsio a Gwenllian Howells (P) i gerdd ar Nwyddion S4C. Mae’r ddwy’n fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.



Fe welwch hysbyseb yn y Papur ynghylch sesiynau i’w cynnal ar lein gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn archwilio gwahanol agweddau ar yr Hen Destament a’r Testament Newydd. Y tiwtor a fydd yn cynorthwyo i ddehongli rhannau o‘r Testament Newydd yw’r Athro Catrin Haf Williams (P).

Bu Llinos Roberts (P), ynghyd ag Iwan Evans (Glanmor Evans a’i Fab) yn trafod y system newydd o gyflwyno tystysgrifau marwolaeth sydd wedi arwain at oedi cynnal angladdau ar Bwrw Golwg ar Radio Cymru. Hefyd, ar yr un rhaglen, cafodd Llinos ei holi gan y cyflwynydd Nest Jenkins am gyffuriau / brechlynnau colli pwysau sydd yn y newyddion ar hyn o bryd.

Bu Catrin Haf Williams yn trafod dyfodol Astudio Diwinyddiaeth mewn Prifysgol gyda John Roberts ar Bwrw Golwg ar Radio Cymru. Tan yn ddiweddar roedd Catrin yn ddarllenydd mewn Astudiaethau Testament Newydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac mae'n un o swyddogion TRS-UK - cymdeithas broffesiynol sy'n trafod dyfodol astudiaethau crefyddol a diwinyddiaeth yn y DU. Meddai: Dw i'n credu y gallwn ni ddweud bod creisis a bod yn onest - mae 'na ryw 30 o brifysgolion yn dal i gynnig diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol ond mae'r niferoedd o adrannau gyda staff niferus lawr i ryw 15 erbyn hyn… Mae'n bryder gwirioneddol - mae pump adran wedi cau ers yr haf a byddwn i'n dychymygu y bydd hanner y gweddill wedi cau erbyn y ddegawd nesaf.’

Bu Nia Evans (E) a Colin ar y rhaglen Our Welsh Chapel Dream ar Sianel 4). Mae’r rhaglen yn rhan o gyfres sy’n ymweud ag adfer capel adfeiliedig a’i droi’n dŷ.




Ymhlith y rhai a gafodd eu holi ar Newyddion S4C ynghylch diswyddiad Warren Gatland, prif hyfforddwr tîm dynion rygbi Cymru, yn dilyn cyfres o ganlyniadau

siomedig roedd Emlyn Schiavone (P). Mae yntau, fel ninnau, yn gobeithio am ddyddiau gwell i Gymru!

Anfonwn ein cofion at Fiona Elias (P) wrth iddi hithau ac Ysgol Dyffryn Aman edrych ymlaen i'r dyfodol ar ôl cyfnod anodd a heriol yn eu hanes.

Bu Pat Jones (P) ar Bore Cothi ar Radio Cymru yn sôn am Gôr Eifionydd a Chôr Dre'n dod at ei gilydd i berfformio campwaith Karl Jenkins, Symphonic Adiemus, yn Pontio, Bangor.

A wyddech chi mai ar 22 Mawrth 2020 (5 mlynedd yn ôl) y darlledwyd yr Oedfa Ddigidol gyntaf gennym fel Gofalaeth! Rydym wedi llwyddo i ddarlledu oedfa bob Sul yn ddi-dor ers hynny! Ardderchog yn wir. Diolch i'n Gweinidog am ei harweiniad.



Llongyfarchiadau mawr i Nansi Hayes (P) ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto! Ganed Menna Hedd i Carys a Gruff Evans, Caerdydd a chwaer fach i Noa. Pob dymunad da i'r teulu bach.



***A*** llongyfarchiadau hefyd i Mattie Jones (E) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Chwefror!

**Adroddiadau Blynyddol 2024**

**Maer adroddiadau Elim, Heol Awst a'r Priordy wedi'u cyhoeddi.**
**Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n gyfrifol am eu llywio drwy'r wasg.**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Ffion, Carys, Gethin a Nia Hopley (HA) ar farwolaeth eu tad-cu, Hefin Thomas, Waunrhydd Trawsmawr.**

**Maria Steadman (P), ar farwolaeth ei phriod Alun, Llanpumsaint.**

**Aled Evans a Marged a'r merched Mared, Manon, Mirain a Martha (P) ar golli mam Aled a mam-gu'r plant, Siân Evans, Llanddarog gynt.**

**Ann Walters (E) ar golli'i modryb, Marina Evans, Aberaeron.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth**

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

*MAWRTH / EBRILL*

| E | Gweinidog | HA | Aelodau | P | Sulwyn a Glenys Thomas<br>June Thomas a Heather Williams<br>Huw a Mwynwen Jones<br>Llinos Roberts |
|---|---|---|---|---|---|

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 2 | | Ebrill | 6 | |
| | 9 | Ernest Jones<br>Dave Thomas | | 13 | Alun ac Olga Williams |
| | 16 | | | 20 | |
| | 23 | Ernest Jones<br>Dave Thomas | | 27 | Alun ac Olga Williams |
| | 30 | | | | |

## CAPEL ELIM

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 2 | Maureen Jones | Ebrill | 6 | Laura Wellings |
| | 16 | Sarah McDonald | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 2 | Bore | Ann Evans |
| Ebrill | 6 | Bore | Maureen Jones |

## PRIORDY
## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mawrth | | Ebrill | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Emlyn Schiavone | Huw Jones | Catrin Heledd Jones | Huw Michael |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 2 | Enid Evans | Ebrill | 6 | |
| | 9 | | | 13 | Gill Owens |
| | 16 | Catrin H Jones | | 20 | |
| | 23 | | | 27 | Thelma Evans |
| | 30 | Ann Thomas | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 2 | Bore | Teulu Angharad Wyn |
| Ebrill | 6 | Bore | Carys Morgans a Luned Thomas |
| | 20 | Bore<br>Sul y Pasg | Catrin Heledd Jones a<br>Jayne Jones |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 2 | Syfi Rolant | Ebrill | 6 | Nia Lewis |
| | 9 | Gill Owens | *Sul y Blodau* | 13 | Y Plant |
| | 16 | Philip Jones | *Sul y Pasg* | 20 | Jayne Woods |
| | 23 | Heledd Mai Jones | | 27 | Miriam Wyrwoll |
| *Sul y Fam* | 30 | Y Mamau | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Alison Parsons | Ebrill | Elinor Wyn Reynolds |

**Y PRIORDY – CWRDD EGLWYS**

**BORE SUL – 6 EBRILL 2025 – WEDI'R OEDFA**

## CORNEL
## CODI GWÊN!

Pa fath o oleuadau oedd ar Arch Noa?

*Llif* – oleuadau!

# SULIADUR YR OFALAETH
# MAWRTH / EBRILL 2025

| DYDDIAD | 10.00 | 11.30 | 3.00 (oni nodir yn wahanol) | 7 .00 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Mawrth 2** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | | |
| **Mawrth 9** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst© (+ E)<br>Gweinidog | |
| **Mawrth 16** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+ HA)<br>Gweinidog | | |
| **Mawrth 23** | Priordy<br>Elinor Wyn & aelodau<br><br>Heol Awst (+ E)<br>Ainsley Griffiths | | | |
| **Mawrth 30**<br>**Sul y Fam** | Priordy – *OD*<br>Oedfa i Gapeli Cymraeg y dref. Gweinidog | | | |
| | | | | |
| **Ebrill 6** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+ HA)<br>Gweinidog | | |
| **Ebrill 13** | Priordy – *OD*<br>Gweinidog | | Heol Awst© (+ E)<br>Gweinidog | |
| **Ebrill 17**<br>**Iau Cablyd** | | | | Tabernacl ©<br>Oedfa Gymun<br>I Gapeli Cymraeg y dref |
| **Ebrill 18 – Groglith** | Tabernacl 10.30<br>Oedfa bregethu i Gapeli Cymraeg y dref | | Pererinod i Gopa Bryn Myrddin. 2.30 | |
| **Ebrill 20 – Sul y Pasg** | Priordy©<br>Oedfa Gymun i'r Ofalaeth gyfan<br>Gweinidog | | Bancyfelin i'r Ofalaeth gyfan.<br>Gorymdaith y Pasg.<br>Gweinidog | |
| **Ebrill 27** | Priordy<br>Ainsley Griffiths | | Heol Awst (+E)<br>Eirian Wyn Lewis | |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL

**Mawrth / Ebrill 2025**



**Elim**
**2 Mawrth – Dim Ysgol Sul**
**9 Mawrth – Ysgol Sul**
**16 Mawrth – Ysgol Sul**
**23 Mawrth – Ysgol Sul**
**30 Mawrth - Oedfa Deulu**

**Y Priordy**
**2 Mawrth – Dim Ysgol Sul**
**9 Mawrth – Ysgol Sul**
**16 Mawrth – Ysgol Sul**
**23 Mawrth – Ysgol Sul**
**30 Mawrth -Oedfa Deulu**




| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Prynhawn Gwener 13 Mehefin | 1.30 | Capel Elim |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher 11 Mehefin | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun 9 Mehefin | 7.30 | Festri’r Priory |

**CWRDD BLYNYDDOL Y PUM EGLWYS**
**NOS LUN, 17 MAWRTH 2025 – 7.00 – FESTRI HEOL AWST**



**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau’r mis hwn.**


GWAHODDIAD I
LANSIAD LLYFR
HOFF ADNODAU'R CYMRY
P'NAWN LLUN AM 2.00
24 MAWRTH 2025
FESTRI CAPEL
HEOL AWST
CAERFYRDDIN
Darperir lluniaeth ysgafn.
Croeso cynnes i bawb!
60 O GYMRY ADNABYDDUS
YN RHANNU EU HOFF ADNODAU
HOFF
ADNODAU'R
CYMRY
Casglwyd gan
BETI-WYN JAMES
Cyhoeddiadau'r Gair


Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
~ Y GYMDEITHAS ~
Dydd Mawrth, 15 Ebrill 2025
2 o'r gloch y prynhawn
Festri Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP
Siaradwr/Baritôn gwadd:
Kees Huysmans
Tregroes
Enillydd y Rhuban Glas yn
Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni
Perchennog Waffles Tregroes
Cyfeilydd: Mrs Elonwy Huysmans
Croeso cynnes i bawb